**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Cyfeirnod/ref P-04-459

Annwyl Bill

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 8 Ebrill 2013 ynghylch y ddeiseb a ganlyn gan Sovereign Wales:

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru.*

Fel y gwnaethoch sôn, bu i'r Pwyllgor wneud yr argymhelliad a ganlyn i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad ar gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012.

***Argymhelliad 6.*** *Archwilio'r achos busnes o blaid gwasanaeth trên aml, uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd, pe bai hyn yn cael ei gefnogi gan yr asesiad annibynnol a awgrymwyd yn Argymhelliad 4.*

Fel y gwnaethoch nodi hefyd, derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yn yr ymateb a ganlyn i'r adroddiad:

***Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor***
*Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i flaenoriaethu, yn ein hymrwymo i ystyried cynyddu'r gwasanaethau ar reilffordd Bro Morgannwg fel bod gwasanaeth bob hanner awr. Byddai hynny'n dyblu nifer y gwasanaethau sy'n galw yng ngorsaf (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws. Bydd hyn yn bosibl ar ôl i Network Rail gwblhau'r rhaglen i Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd, sydd i fod i ddod i ben yn 2015. At hynny, rydym yn parhau i ariannu'r gwasanaeth bws gwennol poblogaidd rhwng Gorsaf (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws a Maes Awyr Caerdydd, ac mae'r gwasanaeth wedi'i estyn yn ddiweddar i Ardal Fenter Sain Tathan.*

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:enterprise.committee@wales.gov.uk

Yn ychwanegol at hyn, ym mis Ionawr eleni, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ddilynol gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, ar Faes Awyr Caerdydd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau ynghylch y gwasanaethau rheilffordd i faes awyr Caerdydd ac oddi yno, nododd y Prif Weinidog y byddai'n rhaid iddo ystyried y cysylltiadau i'r maes awyr mewn amser, ond mai ei flaenoriaeth oedd sicrhau bod y maes awyr yn parhau i fodoli yn y lle cyntaf.


Cadarnhaodd fod sefydlu cysylltiad rheilffordd i mewn i'r maes awyr gyda'r posibilrwydd o wella'r mynediad i'r Rhws ac oddi yno yn un cynnig y gellid ei ystyried, ond bod cynigion eraill hefyd y gellid eu hystyried, fel adeiladu cyfnewidfa yn agosach at draphont Porthceri.

Ail-ddatganodd hefyd y ffaith y byddai cysylltiadau rheilffordd yn gwella o ganlyniad i'r gwaith ar y signalau yn ardal Caerdydd o 2015, a fyddai'n arwain at wasanaeth pob hanner awr rhwng Caerdydd a'r maes awyr.

Dywedodd hefyd y byddai'n rhaid ystyried datblygu gwasanaeth rheilffordd rhwng y maes awyr a Llundain.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn cynorthwyo eich trafodaethau ar y ddeiseb hon.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC / AM**
Cadeirydd / Chair